



SWYDDOGOL

Ein Cyf:

Dyddiad:

Annwyl

Cyfeirnod Llys:

Pam yr ydych yn derbyn y llythyr hwn

Rydym yn gwybod y gall cymryd rhan mewn achosion llys am eich teulu fod yn anodd i oedolion. Mae hyn yn waeth i blant yn aml. Yn ystod ein rhan ni o'ch achos, bydd ymarferydd Cafcass Cymru yn gweithio gyda chi i ddeall yn well yr effaith y mae eich anghydfod yn ei chael ar eich plentyn/plant a'r hyn y gellir ei wneud i ddileu neu leihau unrhyw effaith niweidiol. Bydd yr adroddiad y byddwn yn ei ddarparu i'r llys a'r partïon yn cynnwys dadansoddiad o unrhyw risgiau presennol ac yn y dyfodol y gallai eich plentyn/plant eu hwynebu, a pha newidiadau efallai y bydd angen i chi eu gwneud i gadw eich plentyn/plant yn ddiogel. Pan fydd yn ddiogel gwneud hynny, byddwn yn ceisio eich helpu chi a'r parti arall i ddod o hyd i ateb ar gyfer eich plentyn/plant a fydd yn gweithio i chi'r rhieni.

Bydd yr adroddiad yn cynnig argymhellion i chi ynglŷn â'r ffordd orau o sicrhau bod yr holl drefniadau yn y dyfodol er lles gorau eich plentyn/plant. Gallai hyn olygu ein bod yn gwneud argymhellion neu awgrymiadau sy'n wahanol i'r hyn a ddylai ddigwydd yn eich barn chi. Bydd y Llys yn darllen yr adroddiad ac yn gwrandao ar farn y partïon cyn gwneud penderfyniadau terfynol ynglŷn â beth ddylai ddigwydd.

Beth fydd yn digwydd nesaf?

Bydd angen i ni siarad â chi a'ch plentyn/plant. Bydd ymarferydd Cafcass Cymru yn cael ei neilltuo i'ch achos yn fuan a bydd yn cysylltu â chi, drwy neges destun neu dros y ffôn i ddechrau. Bydd yn trefnu amser cyfleus i siarad. Mae'r drafodaeth yn gyfle i chi roi gwybod i ni ac i'n helpu ni i ddeall yn well unrhyw bryderon sydd gennych am ddiogelwch a lles gorau eich plentyn/plant. Bydd yr ymarferydd hefyd yn trefnu gyda chi sut y byddwn yn siarad â'ch plentyn/plant am eu safbwyntiau nhw.

Oherwydd y sefyllfa bresennol efallai y bydd oediad cyn clywed gennym. Hoffem eich sicrhau y byddwn mewn cysylltiad maes o law.

Apwyntiadau Cafcass Cymru gyda'ch plentyn/plant

Mae gan blant a phobl ifanc yr hawl i fynegi eu safbwyntiau eu hunain ac i'w lleisiau gael eu clywed yn ystod y trafodion. Oherwydd pandemig Covid-19, mae'n debygol y bydd cyfarfodydd rhwng eich plentyn/plant a Cafcass Cymru yn cael eu cynnal o bell, megis dros y ffôn, FaceTime neu Microsoft Teams. Gofynnwn i chi gefnogi eich plentyn/plant yn y ffyrdd canlynol:

Yn ystod ein hymwneud, byddwn yn disgwyl i chi:

- Sicrhau bod eich plentyn/plant ar gael ar gyfer unrhyw apwyntiadau y mae ymarferydd Cafcass Cymru yn eu trefnu.
- Esbonio'n ofalus i'ch plentyn/plant beth yw pwrpas ein rhan ni a rhannu â nhw y ddolen sydd ynghlwm i lythyr croeso Cafcass Cymru i blant a'n Taflenni i Blant. <https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2020-08/cafcass-cymru-cia-llythyr-i-plentyn-25-awst-2020.pdf>. Gofynnwch iddyn nhw a fyddai'n well ganddyn nhw siarad â ni dros y ffôn neu drwy ddefnyddio cyfrwng fideo.
- Rhoi sicrwydd i'ch plentyn/plant fod ymarferydd Cafcass Cymru yn dymuno gwrandao ar eu safbwyntiau a deall sut y maen nhw'n teimlo am bethau, er mwyn helpu i sicrhau bod yr oedolion yn gallu gwneud y trefniadau gorau posibl ar eu cyfer (gyda phwy y maen nhw'n byw a phwy maen nhw'n eu gweld neu'n treulio amser gyda nhw). Esboniwch nad yw plant yn gwneud y penderfyniadau eu hunain, y Llys sy'n gwneud hynny.
- Sicrhau bod ganddyn nhw le preifat i siarad heb i neb arall yn y cartref eu clywed na thorri ar eu traws.
- Rhoi gwybod iddyn nhw ymlaen llaw pryd y byddwn yn cysylltu â nhw, eu helpu i fod yn barod a darparu unrhyw ddeunyddiau y mae ymarferydd Cafcass Cymru wedi awgrymu y byddai'n ddefnyddiol (er enghraifft papur a phen neu hoff degan).
- Deall efallai y bydd angen i ni siarad â'ch plentyn/plant fwy nag unwaith, ac efallai y byddwn yn gofyn am gael eich gweld chi a'ch plentyn yn rhyngweithio â'ch gilydd.

Rydym yn deall efallai y byddwch yn pryderu os na fyddwn yn cwrdd â'ch plentyn/plant yn bersonol oherwydd pandemig Covid-19. Fodd bynnag, hoffem eich sicrhau bod gennym ystod o offer a dulliau o gyfathrebu â phlant o bell, sydd wedi gweithio'n effeithiol ac yn llwyddiannus i lawer o blant ers dechrau'r pandemig. A fydddech cystal â nodi unrhyw bryderon sydd gennych ynglŷn ag ymgysylltu â'ch plentyn/plant fel hyn gydag ymarferydd Cafcass Cymru cyn gynted ag y bo modd? Bydd hyn yn sicrhau ein bod yn deall eich pryderon ac yn gallu ystyried y ffordd orau o fynd i'r afael â hyn.

Pwyntiau eraill i'w nodi:

- Mae gan Cafcass Cymru ddyletswydd i ymgymryd â'r tasgau y mae'r Llys wedi gofyn i ni fynd i'r afael â nhw, ac yn gyffredinol, mae angen i ni ymgysylltu â'r plentyn/plant i wneud hyn. Felly, byddwn yn ffeilio adroddiad i'r Llys, yn seiliedig ar yr ymholiadau yr ydym wedi gallu eu gwneud. Mae hyn yn cynnwys achosion pan nad ydym wedi gallu siarad â'r plentyn/plant, o ganlyniad i'w dewis eu hunain neu benderfyniad eu rhieni.
- Efallai y byddwn yn cysylltu ag asiantaethau eraill neu aelodau o'r teulu yn rhan o'r ymholiadau; gallwch chi ddweud wrth ymarferydd Cafcass Cymru pwy yn eich barn chi y mae'n berthnasol i ni siarad â nhw.

- Mae'n bosibl na fydd popeth yr ydych yn ei ddweud wrthym yn cael ei gynnwys yn yr adroddiad. Byddwn yn canolbwyntio ar yr hyn sy'n berthnasol i'ch plentyn/plant ac yn gwneud argymhellion i'ch helpu i gyflawni'r hyn sydd orau er lles eich plentyn/plant.
- Mae dyletswydd arnom i'ch diogelu chi a'ch plentyn/plant. Os ydym yn poeni am ddiogelwch rhywun, byddwn yn atgyfeirio i'r awdurdod lleol (gwasanaethau cymdeithasol).
- Dylech ymatal rhag trafod yr achos llys ar y cyfryngau cymdeithasol, er mwyn diogelu preifatrwydd eich plentyn/plant.
- Fel sefydliad, rydym ni'n gofyn i ddefnyddwyr y gwasanaeth beidio â chofnodi'r trafodaethau sy'n digwydd, heb iddyn nhw ymgynghori â ni ymlaen llaw.

Mae ein gwefan yn cynnwys gwybodaeth, taflenni a dolenni defnyddiol am swyddogaeth Cafcass Cymru a'r hyn y gallwch ei wneud i gefnogi eich plentyn/plant. Byddem yn eich annog i gael golwg ar y wybodaeth ar y wefan; dyma'r ddolen: <https://llyw.cymru/cafcass-cymru>

Os ydych yn teimlo eich bod mewn perygl neu wedi bod yn destun cam-drin domestig, gallwch gysylltu â llinell gymorth Byw Heb Ofn ar 0808 80 10 800 neu fynd i'r wefan yn <https://llyw.cymru/byw-heb-ofn>. Gwasanaeth am ddim yw hwn i fenywod a dynion ac mae hefyd yn rhoi cyngor i aelodau'r teulu a allai fod yn pryderu am rywun.

Eich gwybodaeth

Er mwyn cydymffurfio â'r Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data, mae Cafcass Cymru wedi llunio Hysbysiad Preifatrwydd sy'n esbonio pa wybodaeth bersonol yr ydym yn ei chasglu, pam yr ydym yn ei chasglu, o ble yr ydym yn ei chasglu, yr hyn yr ydym yn ei wneud â'r wybodaeth, â phwy yr ydym yn ei rhannu, am ba hyd yr ydym yn ei chadw a sut yr ydym yn ei chadw'n ddiogel. Mae'r Hysbysiad Preifatrwydd yn nodi eich hawliau chi hefyd o dan GDPR y DU mewn cysylltiad â'ch gwybodaeth bersonol. Gallwch ddod o hyd i'r Hysbysiad Preifatrwydd ar ein gwefan yn <https://llyw.cymru/cafcass-cymru/sut-yr-ydym-yn-defnyddio-eich-gwybodaeth> neu os hoffech gopi mewn fformat gwahanol, gallwch gysylltu â'ch Swyddfa Cafcass Cymru leol a byddwn yn rhoi copi i chi.

Bydd angen i chi gysylltu â'r swyddfa i roi gwybod i ni am unrhyw newid i'ch cyfeiriad, manylion cyswllt neu gynrychiolaeth gyfreithiol ac **os nad ydych wedi gwneud hynny eisoes, mae'n rhaid i chi sicrhau bod eich cyfeiriad e-bost yn gywir er mwyn cael eich copïau o adroddiadau'r llys yn electronig.**

Rydym yn croesawu gohebiaeth yn Gymraeg. Bydd gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn cael ei hateb yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at unrhyw oedi.

Yn gywir

Cafcass Cymru

Ffôn • Tel: 03000 628877
Ffacs • Fax:
cafcasscymrusouthwales@gov.wales
Gwefan • Website:
<http://cafcass.gov.wales>

Cafcass Cymru • Cafcass Cymru
Llywodraeth Cymru • Welsh Government
Rhydycar • Rhydycar
Merthyr Tudful • Merthyr Tydfil
CF48 1UZ